

# Nodion Seion Medi 2018



## DIOLCH ANDREW

Ar brynhawn Sul, 15 Gorffennaf, roedd llawr y capel yn gysurus lawn ar gyfer yr oedfa deuluol o dan arweiniad ein Gweinidog, y Parchedig Andrew Lenny. Roedd nifer o gyn-fyfyrrwyr a fu'n addoli'n ffyddlon yn Seion yn ystod eu cyfnod yn y coleg ynghyd â myfyrwyr presennol wedi teithio o bell i fod yn yr oedfa. Yn dilyn yr oedfa, gyda Lewis Gruffudd, Ysgrifennydd Seion yn llywyddu o'r pulpud, darllenodd Elisabeth James, ar ran Margaret Dyfri Jones, ei geiriau hi o ddiolch a gwerthfawrogiad i Andrew am dros 31 mlynedd o weinidogaeth yn Seion ynghyd â'r bendithion di-ri a ddaeth i ran yr eglwys yn sgil ei weinidogaeth.

Teimlem ryw chwithdod rhyfedd fod Margaret Dyfri yn methu â bod yn yr oedfa a hithau mewn gwaeledd yn Ysbyty Bronglais. Margaret a gysylltodd ag Andrew ar ran eglwys Seion ym 1986 yn gofyn iddo ddod ar brawf. Dyma rai darnau o'i hanerchiad:

*"Daw nifer o straeon a hanesion i'r cof, pob un ohonynt yn cyffwrdd â theimlad neu emosiwn ymhob un ohonom mae'n siŵr, oherwydd mae Andrew wedi bod yn rhan ganolog o'n bywydau ni i gyd trwy'r lleddf a'r llon, trwy hapusrwydd a thristwch, trwy ofid a gorfoledd. Bu yno ar gyfer pob un ohonom yn ei dro, yn hael â'i amser, yn barod iawn ei gymwynas, gan gynnig gweinidogaeth fugeiliol heb ei hail. Cyflawnodd y cyfan ag urddas, gofal a didwylledd... Wrth ddiolch i Andrew am ei gyfraniad sylweddol iawn i gymuned Seion rhaid hefyd ddiolch i Rosemary hithau am fod yn graig ac yn gefn i Andrew ar hyd y daith. Mae dyled yr eglwys yn fawr iawn iddi hithau hefyd. Braint i ni fel eglwys oedd cael dathlu genedigaeth eu merch, Mair ac yna dilyn ei gyrfa lwyddiannus ac, yn fwy diweddar, ei phriodas â Drew... Diolch Andrew am eich gofal diflino ohonom. Rydych wedi cadw'n driw i'ch gweinidogaeth ar hyd y blynyddoedd gan hau hadau haelioni, brawdgarwch, amynedd, llawenydd cyfiawnder a gwirionedd - ie:*

*Gwas y Goruchaf ydwyt  
A'r gostyngyddiaf un,  
Bu d'ofal am ei enw Ef  
Nid am dy fri dy hun."*

Cyflwynodd Elisabeth James rodd mewn amlen i Andrew ar ran yr eglwys cyn i Alaw ddarllen yr englyn canlynol o waith ei phriod, y Prifardd Hywel Griffiths yn deyrnged i Andrew:

*Ni fydd Seion yn llonydd - bydd gwaddol,  
a bydd gweddi beunydd,  
a choffâd i waith eich ffydd  
i ni mewn emyn newydd.*

Mynegodd Glyn Lewis Jones gyfarchion cyn rhoi'r englyn wedi'i fframio i'r Gweinidog.

Cyflwynodd Mererid Thomas, Arolygydd yr Ysgol Sul, rodd i Rosemary gan ddiolch iddi am ei gwaith fel athrawes Ysgol Sul ymroddedig ac am baratoi deunydd a hyfforddi'r plant ar gyfer yr oedfaon teuluol ar hyd y blynyddoedd. Cyflwynodd hefyd rodd i Mair a'i phriod Drew gan ddwyn i gof ffyddlondeb Mair yn yr Ysgol Sul ac yn holl weithgarwch yr eglwys. Yn dilyn hynny, darllenodd June Griffiths ei phenillion cyfarch i Andrew, Rosemary, Mair a Drew:

1 *Mor anodd ydyw canu  
A nghalon i mor drom  
Mor ddiflas rydwi'n teimlo  
A chymaint ydyw'r siom.  
Aelodau ffyddlon Seion  
Sy'n colli dagrau lu -  
Oherwydd ymddeoliad  
Gweinidog annwyl cu.*

2 *Dros drideg o flynyddoedd  
Bu'n gapten ar ei griw,  
Ein cynnal yn garedig,  
Yn ffyddlon ag yn driw.  
Drwy holl helyntion bywyd  
Bu Andrew yma i ni,  
A mawr ein dyled iddo  
Am gyfeillgarwch cu.*

3 *A beth am Mrs Lenny  
Ei gymar hawddgar llon?  
Mae pawb yn dotio arni -  
Does neb yn wir fel hon.  
Mor wag fydd Eglwys Seion  
Heb gwmni Rosemary  
Bydd pawb yn gweld ei heisiau -  
Mor annwyl ydyw hi.*

4 *Rwy'n cofio'r ddeuddyn ieuanc  
Yn dechrau ar eu taith -  
Y ddau yn llawn brwdfrydedd  
Yn gafael yn eu gwaith.  
Mor anodd yw cael rhywun  
I wrando ar ein cwyn,  
Ond dyma beth wnaeth Andrew  
A Rosemary fach fwyn.*

5 *Rwy'n cofio am y miri  
Yn ein Cymdeithas gre'  
Dramâu ac Eisteddfodau  
A chwerthin dros y lle!  
Braf gweld y plantos bychain  
Yn llenwi'r hen Sêr Fawr,  
Ieuentid Seion hefyd -  
Rhown ddiolch iddynt nawr.*

6 *Y peth rwy'n gofio fwyaf  
Yw geni plentyn bach  
I Rosemary ag Andrew -  
Y babi perffaith iach.  
Ac O'r! llawenydd yma  
Yn Seion, gwir y gair  
Pan anwyd merch fach annwyl  
I'r ddau, sef Bethan Mair.*

7 *Fe dyfodd yn ferch ifanc  
Yn eneth brydferth, lon -  
Mor lwcus fu ei phriod  
Yn wir - i ennill hon.  
Hir oes a phob hapusrwydd  
I Mair, a'i hannwyl Drew  
Boed llewyrch ar eu bywyd  
Dan ofal tyner Duw.*

8 *Gwir Gristion ydyw Andrew -  
Mae hyn i bawb yn ffaith,  
Bu'n gysur, ac yn gyfaill  
Drwy'r holl flynyddoedd maith,  
Pregethu'r Gair yn rymus,  
Gweddiwr heb ei ail,  
Rhoi nerth i'r ysbryd egwan  
A chynorthwyo'r gwael.*

9 *Rhaid diolch nawr i Andrew  
A Rosemary ei wraig  
Am arwain Eglwys Seion  
A bod i ni yn graig.  
Mi fydd yn anodd, anodd  
Heb Andrew wrth y llyw,  
Ond rhaid fydd i ni gerdded  
Ymlaen, dan ofal Duw.*

*10 O'r galon daw ein diolch  
Yn awr i'r ddeuddyn clên  
Anghofiwn fyth mo'ch cariad  
(Er i ni fynd yn hen)  
Boed iechyd a hapusrwydd  
Yn dilyn drwy eich oes  
A'ch bywyd fo'n llawn cysur  
Dan gysgod Gŵr y Groes.*

I offren, cafwyd gair didwyll o ddiolch gan y Gweinidog cyn i bawb fynd i'r festri i fwynhau te blasus ynghyd â chacen yn dymuno ymddeoliad hir a hapus wedi'i choginio gan Gwenda James.

---

### **Aelodau a hunodd**

Mrs Margaret Dyfri Jones (31.7.18),  
Miss Mair Thomas (20.8.18)  
Mr Emyr James (27.8.18).

*"A'r rhai a garodd Ef un waith,  
Fe'u câr i dragwyddoldeb maith."*

### **Cydymdeimlwn ag aelodau a gollodd anwyliaid**

Mrs Mandy Thomas (cyfnither), Mrs Gwenda Lloyd Evans (brawd yng nghyfraith), Mrs Hawys Roberts (modryb), Mrs Elizabeth Evans (cefnder), Miss Evelyn Jones (cyfnither).

### **Yn yr ysbyty neu newydd dderbyn triniaeth**

Mr Richard Morgan, Miss Ann Thomas, Mr Bill Farrow, Mr John Ifor Jones.

### **Llongyfarchiadau**

i Mrs Cassie Pugh ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar, a phob bendith i'r dyfodol.

### **Dymuno'n Dda**

Dymunwn longyfarch ieuentid yr eglwys ar eu llwyddiant mewn arholiadau ysgol a choleg. Dymunwn yn dda i'r plant sy'n cychwyn yn Ysgolion Penweddig a Phenglais.

### **Diolch a Gwerthfawrogi Gwasanaeth**

Diolchwn i Miss Rhiannon Davies am fod yn gyfrifol am y materion i'w cyhoeddi ar y Sul. Anogwn aelodau i roi gwybod iddi ar y Nos Wener cyn bob Sul am faterion y dylid eu cyhoeddi. E-bost: [cemaes@btinternet.com](mailto:cemaes@btinternet.com)  
Ffôn: 01970/615409

Diolchwn i Mr. Leon Gibson am fod yn gyfrifol am Ddyddiadur y Festri a Llogi'r Adeiladau.

E-bost: [eirian.gibson@btinternet.com](mailto:eirian.gibson@btinternet.com)  
Ffôn: 01970/611834

Fel Trefnydd Ymwelwyr â'r Cleifion, bydd Mrs Elisabeth James yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth am aelodau sy'n wael eu hiechyd neu yn yr ysbyty.

E-bost: [jelisabeth1938@gmail.com](mailto:jelisabeth1938@gmail.com)  
Ffôn: 01970/623579

### **Adroddiad y Pwyllgor Bugeiliol, 11 Medi 2018**

Yn y cyfarfod o'r pwyllgor, adolygwyd y sefyllfa gyfredol o ran ceisio denu Gweinidog amser llawn i Ofalaeth newydd Seion a Bethel Talybont. Nodwyd na chafwyd yr un ymateb i'r hysbysebion a ymddangosodd bedair gwaith yn y Wasg ac na chafwyd unrhyw ymholiad llafar am wybodaeth. Hefyd, cysylltwyd yn bersonol â rhai y tybiwyd gallai fod â diddordeb ond ni chafwyd llwyddiant.

Ar ôl ymgynghori â Choleg yr Annibynwyr, cysylltwyd â dau fyfyrwr sy'n ymgeiswyr am y weinidogaeth. Penderfyniad y Pwyllgor oedd gwahodd y ddau i bregethu yn y ddwy eglwys ond nid ar brawf ond yn hytrach i roi cyfle i'r ddwy gynulleidfa eu cyfarfod. Bydd hyn yn debygol o ddigwydd yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau â'n hymchwili i geisio darganfod a oes rhywrai eraill nad ydym eto wedi cysylltu â hwy a allai fod â diddordeb yn yr Ofalaeth.

## Pregethwyr

30 Medi - Mrs Delyth Morgans Phillips

7 Hydref - Y Parchg. Peter Thomas (bore)

14 Hydref - Diolchgarwch aelodau'r Ysgol Sul

21 Hydref - Mr Huw Roderick

28 Hydref - Y Parchg. Meirion Morris

(Cyrddau Pregethu)

4 Tachwedd - Y Parchg. Wyn Morris

11 Tachwedd - Y Parchg. Peter Thomas (hwyr)

18 Tachwedd - Dr Hefin Jones

25 Tachwedd - Y Parchg. Irfon Roberts

## Trefn Gwasanaethau'r Cymun

Hydref 7 (bore)

Tachwedd 4 (hwyr)

Rhagfyr 2 (bore)

CROESO cynnes i bawb a ddaw atom i addoli.

Croeso cynnes hefyd i'r myfyrwyr ar ddechrau tymor newydd.

## Rota'r Cymun

Mae angen gwirfoddolwyr sy'n fodlon cael eu cynnwys ar y rota i baratoi'r Cymun os gwelwch yn dda. Ar gyfer un Sul y flwyddyn yn unig fydd hyn. Os allwch chi helpu, a fyddech cystal â rhoi gwybod i **Gwenda James**, Cydlynnydd Rota'r Cymun.

E-bost: [gwenda\\_llan@yahoo.com](mailto:gwenda_llan@yahoo.com)

## Cyfeiriad Newydd

Y Parchg. Irfon Evans a Mr Huw Evans,  
5 Fflatiau Sant Ioan, Morfa Mawr,  
Aberystwyth SY23 2HW

# I'ch Dyddiadur...

## Dydd Sadwrn 6 Hydref

Dydd Baneri Cymorth Cristnogol. Bydd y blychau casglu ar gael o festri Seion.

Gofynnir am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r casglu ar hyd strydoedd y dref.

## Dydd Sul 4 Tachwedd

Ethol rhai Diaconiaid newyddac fe dderbynnir rhoddion i Apêl Llifogydd Bangladesh a drefnir gan Gymorth Cristnogol.

## Dydd Llun 5 Tachwedd

Cinio Bara a Chaws Cymorth Cristnogol yn festri Seion. Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan.